Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru
National
Assembly for
Wales

# Deiseb rhif: P-05-816

20 Chwefror 2019

**Cais am wybodaeth**

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 6 Chwefror, pan wnaethoch ofyn:

> *O dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, gofynnaf am y wybodaeth a ganlyn mewn perthynas â deiseb a gyflwynwyd i Bwyllgor Deisebau Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Enw'r ddeiseb yw "Dywedwch 'NA' i saethu ffesantod ar dir cyhoeddus Cymru" a rhif y ddeiseb yw P-05-816 Gofynnir am y wybodaeth a ganlyn:*
>
> 1) *Beth oedd cyfanswm y llofnodion a gafwyd?*
> 2) *Ar ba safle lletya roedd y ddeiseb yn gysylltiedig ag ef? (er enghraifft, Change.org)*
> 3) *Faint o lofnodion i'r ddeiseb a briodolwyd i gyfeiriad yng Nghymru*
> 4) *Faint o lofnodion i'r ddeiseb a briodolwyd i gyfeiriad yn y DU, ar wahân i'r cyfeiriadau yng Nghymru*
> 5) *Faint o lofnodion a gafwyd ond na ellid eu hadnabod hy cyfeiriad anhysbys / methu eu priodoli.*
>
> *Hoffwn nodi nad wyf yn gofyn am fanylion unigolion ond rwy'n gofyn yn hytrach am y ffigurau sy'n gysylltiedig â'r ddeiseb hon yn ôl y categorïau uchod.*

Dyma ein hymateb i'ch cwestiynau:

1. *Beth oedd cyfanswm y llofnodion a gafwyd?*

   Cafwyd 12,706 o lofnodion.

2. *Pa safle lletya roedd y ddeiseb yn gysylltiedig ag ef? (er enghraifft, Change.org)*

   Casglwyd llofnodion gan ddefnyddio llwyfan e-ddeisebu Engaging Networks, a gafodd ei letya ar wefan y deisebwyr ei hun. Caniatawyd hyn o dan reolau derbyniadwyedd deisebau Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar y

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn/Tel: 0300 200 6544
E-bost/Email: Ceisiadau-gwybodaeth@cynulliad.cymru
Information-request@assembly.wales

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh

pryd. Ers mis Rhagfyr 2018 dim ond deisebau a gasglodd lofnodion ar bapur neu sy'n defnyddio system e-ddeisebau'r Cynulliad sy’n dderbyniadwy.

3. *Faint o lofnodion i'r ddeiseb a briodolwyd i gyfeiriad yng Nghymru?*

   Gellir priodoli 1,487 o lofnodion i god post yng Nghymru.

4. *Faint o lofnodion i'r ddeiseb a briodolwyd i gyfeiriad yn y DU, ar wahân i’r cyfeiriadau yng Nghymru*

   Gellir priodoli 10,353 o lofnodion i gyfeiriad y DU y tu allan i Gymru. (Gellir priodoli 857 o lofnodion i gyfeiriad y tu allan i'r DU.)

5. *Faint o lofnodion a gafwyd ond na ellid eu hadnabod hy cyfeiriad anhysbys / methu eu priodoli?*

   Ni ellid adnabod 9 llofnod / cyfeiriad yn y wybodaeth a gyflwynwyd.

Yn gywir

**Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

Ystyriwyd eich cais yn unol â’r egwyddorion a nodir yn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i’r Cyhoedd Weld Gwybodaeth. Rhowch wybod imi os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch yr ymateb hwn. Os ydych yn teimlo bod gennych achos i gwyno, dilynwch y canllawiau isod.

A oes gennych achos dros bryderu neu gwyno am yr ymateb i'ch cais am wybodaeth?

Os ydych yn anfodlon ar sut y mae'r Cynulliad wedi ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol o fewn 40 diwrnod gwaith i ddyddiad yr ymateb hwn. Dylid cyfeirio ceisiadau am adolygiad mewnol at y Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth yn:
Ceisiadau-gwybodaeth@cynulliad.cymru neu'n ysgrifenedig i
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Llywodraethu a Sicrwydd
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i’r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gallwch gysylltu â’r Comisiynydd Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad a ganlyn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF